

## **Egwyddorion y Cenedloedd Unedig ar gyfer Personau Hŷn**

CAFODD EGWYDDORION Y CENHEDLOEDD UNEDIG AR GYFER PERSONAU HŷN EU MABWYSIADU AR 16 RHAGFYR 1991. CAFODD LLYWODRAETHAU EU HANNOG I'W HYMGORFFORI YN EU RHAGLENNI CENEDLAETHOL PRYD BYNNAG Y BYDDAI MODD. MAE DYLETYSWYDD AR Y COMISIYNYDD I BOBL HŷN YNG NGHYMURU I ROI YSTYRIAETH I'R EGWYDDORION YMA A DYLAI POB UN CORFF EU DEFNYDDIO FEL FFRAMWAITH.

Caiff llywodraethau eu hannog i'w hymgorffori yn eu rhaglenni cenedlaethol pryd bynnag y mae modd:

### **Annibyniaeth**

1. Dylai personau hŷn gael mynediad at fwyd, dŵr, cysgod, dillad a gofal iechyd digonol a hynny drwy ddarpariaeth ar gyfer incwm, cymorth y teulu a'r gymuned a hunangymorth.
2. Dylai personau hŷn gael y cyfle i weithio neu i gael mynediad at gyfleoedd eraill i gynhyrchu incwm.
3. Dylai personau hŷn gael cyfranogi wrth benderfynu pa bryd i dynnu'n ôl o'r gweithlu a pha mor gyflym.
4. Dylai personau hŷn gael mynediad at raglenni priodol o addysg a hyfforddiant.
5. Dylai personau hŷn gael byw mewn amgylcheddau sy'n ddiogel ac a all gael eu haddasu at ddewisiadau personol a newidiadau mewn galluedd.
6. Dylai personau hŷn allu byw gartref cyn hired ag y bo modd.

## Cyfranogi

7. Dylai personau hŷn barhau i gael eu hintegreiddio yn y gymdeithas, cymryd rhan weithgar wrth ffurfio a gweithredu polisïau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar eu llesiant a rhannu eu gwybodaeth a'u medrau â'r cenedlaethau iau.
8. Dylai personau hŷn gael chwilio am gyfleoedd a datblygu cyfleoedd i wasanaethu'r gymuned ac i wasanaethu fel gwirfoddolwyr mewn safleoedd sy'n briodol i'w diddordebau a'u galluoedd.
9. Dylai personau hŷn gael ffurfio mudiadau neu gymdeithasau i bersonau hŷn.

## Gofal

10. Dylai personau hŷn gael manteisio ar ofal ac amddiffyniad y teulu a'r gymuned yn unol â system pob cymdeithas o werthoedd diwylliannol.
11. Dylai personau hŷn gael mynediad at ofal iechyd i'w helpu i gadw neu adennill y lefel orau posibl o lesiant corfforol, meddyliol ac emosiynol ac i atal neu ohirio dechreuad salwch.
12. Dylai personau hŷn gael mynediad at wasanaethau cymdeithasol a chyfreithiol i wella'u hymreolaeth, eu hamddiffyniad a'u gofal.
13. Dylai personau hŷn gael defnyddio lefelau priodol o ofal sefydliadol sy'n darparu amddiffyniad, adsefydliad ac ysgogiad cymdeithasol a meddyliol a hynny mewn amgylchedd trugarog a diogel.
14. Dylai personau hŷn gael mwynhau hawliau dynol a rhyddidau sylfaenol pan fyddant yn byw mewn unrhyw gyfleuster ar gyfer cysgod, gofal neu driniaeth, gan gynnwys parch llawn i'w hurddas, eu credoau, eu hanghenion a'u preifatrwydd aci'w hawl i wneud penderfyniadau am eu gofal ac am ansawdd eu bywydau.

## Hunangyflawniad

15. Dylai personau hŷn gael dilyn cyfleoedd i ddatblygu eu potensial i'r eithaf.
16. Dylai personau hŷn gael mynediad at adnoddau addysgol, diwylliannol, ysbrydol ac adloniadol y gymdeithas.

## Urddas

17. Dylai personau hŷn gael byw mewn urddas a diogelwch a bod yn rhydd rhag cael eu hecsbloetio a'u cam drin yn gorfforol neu'n feddyliol.
18. Dylai personau hŷn gael eu trin yn deg ni waeth beth fo'u hoed, eu rhywedd, eu cefndir hiliol neu ethnig, eu statws anabledd neu eu statws arall, a chael eu gwerthfawrogi yn annibynnol ar eu cyfraniad economaidd.